# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 25.09.14

**Yn bresennol**: Cyng. Tudor Owen , Cyng. Ann Williams, Cyng. Elfed Williams

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan M Williams (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu), a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

**1. CROESO**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Tudor Owen . Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – FRESHWAY EXPRESS, 319, STRYD FAWR, BANGOR, GWYNEDD.**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Amhad Koujan, Mr Chris O'Neal (asiant ar ran yr ymgeisydd)

**Aelodau Lleol:** Dim y bresennol

**Eraill a fynychwyd:** Cynghorydd Keith Marshall (Dinas Bangor ward Menai), Cynghorydd June Marshall (Dinas Bangor ward Menai)

**Ymddiheuriadau:** Dim i'w nodi

**Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer 319, Stryd Fawr, Bangor. Disgrifiwyd yr eiddo fel 'Fast Food Takeaway' gyda bwriad o ddarparu lluniaeth yn hwyr y nos, dan do ac yn yr awyr agored.
Rhoddwyd manylion am yr oriau fydd yr eiddo ar agor i'r cyhoedd a'r amseroedd darparu lluniaeth hwyr y nos.

Tynnwyd sylw'r panel at gamau mae'r ymgeisydd yn bwriadu eu dilyn i hyrwyddo'r pedwar amcan Trwyddedu –

- Gosod camerâu teledu cylch cyfyng y tu mewn i'r adeilad
- Cyflogi goruchwyliwr drysau ar ddydd Gwener, dydd Sadwrn a gwyliau banc o hanner nos tan amser cau
- Glanhau unrhyw sbwriel tu allan i'r eiddo
- Cyfyngu mynediad i blant o dan 16oed o 11:30yh ymlaen oni bai eu bod yng nghwmni oedolyn.

Nid oedd y Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn dymuno rhoi sylwadau ar y cais. Ni dderbyniwyd sylwadau gan Heddlu Gogledd Cymru na Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd. Nid oedd y Gwasanaeth Cynllunio yn gwrthwynebu'r cais

Yn dilyn cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais gan Cyngor Dinas Bangor. Eu pryderon yn ymwneud a'r cynnydd mewn sŵn ac aflonyddwch, y cynnydd mewn gwaredu sbwriel a'r lefel o drosedd ac anrhefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol fydd eiddo lluniaeth hwyr y nos ychwanegol yn ei gael ar yr ardal. Nodwyd bod Cyngor Dinas Bangor o'r farn bod pwynt dirlawnder wedi ei gyrraedd yn yr ardal yma o Fangor, ac yn unol â dogfen Polisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd, dylai 'Polisi Dirlawnder' gael ei fabwysiadu ar gyfer y rhan yma o Fangor..

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Gofynnodd aelod o'r Is-bwyllgor i'r Rheolwr Trwyddedu beth oedd nifer y siopau darparu prydau parod ar Stryd Fawr Bangor a beth oedd eu horiau agor a chau?
Mewn ymateb i'r cwestiwn nododd y Rheolwr Trwyddedu bod 8 eiddo ar y Stryd Fawr yn darparu prydau parod ac nad oedd y cais yn gofyn am oriau hwyrach na mannau cyffelyb.

Gwnaed sylw nad oedd trigolion cyfagos wedi gwneud sylw i'r cais a holiwyd y Rheolwr Trwyddedu os oedd y cais wedi cael ei hysbysebu yn glir. Cadarnhawyd yn unol â threfn statudol bod yn ofynnol hysbysebu cais am 28 diwrnod yn y papur lleol. Ategwyd bod y cais yma wedi ei hysbysebu yn unol â'r ddeddfwriaeth. Ategwyd bod y Cyngor hefyd yn hysbysebu'r cais ar y wefan.

Gwnaed sylw nad oedd sylwadau wedi eu derbyn gan yr Heddlu. Nododd y Rheolwr Trwyddedu na fuasai gan yr heddlu dystiolaeth i'r eiddo gan mai cais ydoedd o'r newydd gyda gofynion cyffelyb i fusnesau eraill.

Atgoffwyd pawb mai 10 munud oedd y cyfnod siarad pawb.

Wrth ymhelaethu ar y cais nododd asiant ar ran yr ymgeisydd bod yr adran cynllunio wedi caniatáu cais cynllunio i'r safle weithredu fel eiddo 'bwyd poeth i'w fwyta allan'; bod yr ymgeisydd wedi ymateb i egwyddorion y Ddeddf Trwyddedu 2003 ac nad oedd gan Wynedd, ar hyn o bryd, bolisi dirlawnder. Ychwanegodd gan adrodd bod yr ardal yn cael ei gwylio yn ofalus gan yr Heddlu, Angylion y Stryd a theledu cylch cyfyng.
Cyflwynodd Mr Koujan fel rheolwr y safle ac ategodd bod Mr Koujan hefyd yn rheoli eiddo arall ym Mangor Uchaf.
Yn dilyn cyfnod ymgynghori, ni dderbyniwyd gwrthwynebiad gan y Gwasanaeth Tân.
Pwysleisiwyd na fyddai alcohol yn cael ei werthu yn y siop.

Mewn ymateb i'r cais nododd Cynghorydd Dinas Bangor a oedd yn bresennol ar ran Clerc Dinas BAgnor ei bod yn cytuno gyda'r farn bod pwynt dirlawnder wedi ei gyrraedd yn yr ardal yma o Fangor ac y dylai'r Cyngor ymateb drwy fabwysiadu polisi tirlawnder.
Gwnaed cais i gamau hyrwyddo egwyddorion Trwyddedu yr ymgeisydd a restrwyd yn ei gais, gael eu gosod fel amodau.

Adroddodd y cyfreithiwr y buasai modd cynnwys yr amodau pe bai'r is-bwyllgor yn penderfynnu caniatau y cais.
Nododd Cadeirydd yr Is-Bwyllgor y buasi'n fuddiol i'r Pwyllgor Trwyddedu drafod polisi tirlawnder.

Wrth grynhoi ei gais nododd yr asiant bod yr ymgeisydd yn hapus i dderbyn yr amodau.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is Bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwydded 2003 sef

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr Is Bwyllgor o'r farn i ganiatáu'r cais gan nad oedd tystiolaeth yn awgrymu bod yr eiddo yn tanseilio egwddorion y ddeddf Trwyddedu.

**PENDERFYNWYD**
**CANIATÁU TRWYDDED O'R NEWYDD I EIDDO FRESHWAY EXPRESS, 319, STRYD FAWR, BANGOR YN UNOL Â'R ARGYMHELLION GAN YCHNWAEGU Y CAMAU A RESTRWYD GAN YR YMGEISYDD (atodiad M o'r cais) I HYRWYDDO'R AMCANION TRWYDDEDU FEL AMODAU.**

***'Promoting the four licensing objectives***
***General***

- ***We will liaise with the Police and Council to ensure we meet all licensing objectives.***
- ***CCTV will be produced if required***
- ***Door Supervisors will produce a full list of any incidents etc***

***Prevention of Crime and Disorder***

- ***The venue will be fitted with a CCTV system inside the shop. This system will be placed so all customers entering the shop will be recorded. CCTV will be recorded for 1 month.***
- ***Door supervisors will be deployed Friday and Saturday from 12:00 until close of business.***

***Public Safety***

- ***Door supervisors deployed Friday and Saturday nights and all Bank Holiday Sundays from 12:00am until close of business. All SIA licensed staff***

***The prevention of public nuisance***

- ***The venue will clear up all rubbish from outside the venue and signs will be placed on the venue asking people to place rubbish in the bin***

***The protection of childen from harm***

- ***No person under the age of 16 will be permitted into the venue after 11:30pm unless accompanied by an adult'.***

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr yn cadarnhau yn ffurfiol i bawb oedd yn bresennol benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 10:45pm